Mehefin 2024

# Adolygiad 2024/24 o'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Chwarae

## Taflen wybodaeth #1

**Fel Cadeirydd Consortiwm Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol y DU, mae'n bleser gennyf gyhoeddi bod y consortiwm wedi cael cymeradwyaeth i fwrw ymlaen ag adolygiad gan gymheiriaid o'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) ar gyfer Gwaith Chwarae, sy'n adolygiad mawr ei angen.**

**Mae'r sefydliadau cenedlaethol wedi bod yn cwrdd ers peth amser ac maent yn cyfuno eu hadnoddau i sicrhau bod yr adolygiad hwn yn bosibl, ar ran y sector, er mwyn sicrhau safonau sy'n addas at y diben ac yn adlewyrchu gwaith gwerthfawr y sector.**

**Y daflen wybodaeth hon yw'r gyntaf yn y gyfres o ddiweddariadau gan y consortiwm er mwyn sicrhau bod y sector gwaith chwarae yn cael y wybodaeth ddiweddaraf, a sicrhau yr ymgynghorir â'r sector a'i fod yn rhan o'r broses gyfan.**

**Jane Hawkshaw**

## Beth sy'n digwydd?

Mae Consortiwm Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol Gwaith Chwarae'r DU wedi cael ei gymeradwyo i fwrw ymlaen ag adolygiad o'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) ar gyfer gwaith chwarae yn ystod 2024 a 2025.

## Beth yw NOS?

Datganiadau o safonau perfformiad ar gyfer sector penodol yw Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS). Ar gyfer gwaith chwarae, maent yn cynnwys y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i fod yn weithiwr chwarae, yn weithiwr chwarae â chyfrifoldeb neu'n rheolwr gwaith chwarae. Cytunir ar y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol gan y sector a chânt eu defnyddio fel sail ar gyfer datblygu cymwysterau. Gellir eu defnyddio hefyd i gefnogi datblygu swydd-ddisgrifiadau ac arfarniadau staff. Darllenwch fwy am NOS yn:
**www.ukstandards.org.uk/cy/about-nos**

## Beth yw Consortiwm NOS Gwaith Chwarae'r DU?

Mae Consortiwm NOS Gwaith Chwarae'r DU yn cynnwys Chwarae Cymru, Play Scotland, PlayBoard Northern Ireland, Play England a'r Playwork Foundation. Bu'r consortiwm yn cyfarfod ers mis Hydref 2021 ac fe'i sefydlwyd i gynllunio'n strategol ar gyfer dyfodol mentrau datblygu'r gweithlu a mentrau sgiliau sector ar draws y pedair gwlad, gan gynnwys adolygiad o'r NOS yn y dyfodol.

Ceir cysylltiadau cryf rhwng Consortiwm NOS Gwaith Chwarae'r DU a'r pedwar Cyngor Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae sy'n gyfrifol am drafod materion o bwysigrwydd strategol yn ymwneud â phob agwedd ar addysg, hyfforddiant a chymwysterau gwaith chwarae yn eu priod wledydd.

## Sut y mae NOS yn cael eu defnyddio?

Yn yr Alban, mae un NOS yn cyfateb yn uniongyrchol i un uned o Gymhwyster Galwedigaethol yr Alban/Cenedlaethol, a defnyddir y rhain i ddatblygu cymwysterau y gellir, yn eu tro, eu cynnig drwy gyrff dyfarnu. Mae angen i'r NOS gwaith chwarae fodloni gofynion penodol er mwyn gallu cofrestru'r cymhwyster a geir gyda Chyngor Gwasanaethau Cymdeithasol yr Alban.

Yng Nghymru a Gogledd Iwerddon, mae'n ofynnol bod cymwysterau gwaith chwarae'n cael eu hategu gan NOS i'w rheoleiddio a'u cymeradwyo ar gyfer staff sy'n gweithio mewn lleoliadau cofrestredig.

Ar gyfer Cyrff Dyfarnu sy'n darparu cymwysterau ar draws Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, mae disgwyliad bod cymwysterau gwaith chwarae yn cael eu hategu gan NOS, ond yn dechnegol nid yw hyn yn ofyniad yn Lloegr.

## Pryd y cafodd NOS gwaith chwarae eu diweddaru ddiwethaf?

Cwblhawyd yr adolygiad diwethaf yn 2016 a chafodd ei gynnal gan SkillsActive.

## Sut y mae proses ddatblygu'r NOS yn cael ei chymeradwyo?

Rhaid datblygu a chymeradwyo'r holl Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol yn unol â phroses sicrhau ansawdd tair gwlad er mwyn eu brandio fel NOS. Rhaid gwneud hynny ni waeth a yw'r adolygiad yn cael ei ariannu'n gyhoeddus, drwy Raglen Safonau a Fframweithiau'r DU, neu ei hunanariannu.

Ym mis Ebrill 2024 cymeradwywyd Consortiwm NOS Gwaith Chwarae'r DU i gynnal proses ddatblygu'r NOS ar gyfer gwaith chwarae ar sail hunanariannu.

## Sut y mae'r adolygiad hwn yn cael ei ariannu?

Mae Consortiwm NOS Gwaith Chwarae'r DU wedi cytuno i hunanariannu'r adolygiad hwn. Mae hyn yn golygu bod pob aelod yn dyrannu adnoddau i'r broses adolygu ar ffurf amser staff a chyllid. Mae hyn yn dangos ymrwymiad gan sefydliadau chwarae a gwaith chwarae y pedair gwlad i sicrhau dull cadarn a cholegol o gynnal yr adolygiad. Mae hefyd yn golygu nad oes rhaid i ni aros tan i arian cyhoeddus fod ar gael i gynnal yr adolygiad hwn.


© Chwarae Cymru

## Pa waith sydd eisoes wedi'i wneud?

Mae'r consortiwm wedi gwneud y gwaith paratoi a ganlyn tuag at yr adolygiad o'r safonau:

- Comisiynu ymarfer cwmpasu i ganfod y defnydd o'r safonau ar draws y DU, yn enwedig mewn perthynas â safonau galwedigaethol o fewn cymwysterau wedi'u rheoleiddio a'r cymwysterau sy'n ofynnol er mwyn gweithio mewn lleoliadau gwaith chwarae a reoleiddir
- Hwyluso gweithdy ymgysylltu yn y National Playwork Conference yn 2023
- Nodi adnoddau i ariannu'r adolygiad o'r NOS
- Nodi Chwarae Cymru fel y sefydliad a fydd yn arwain yr adolygiad
- Ymgysylltu â Chynghorau Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae (PETCs) y pedair gwlad
- Cyflwyno achos busnes ar gyfer bwrw ymlaen â'r adolygiad i Banel Safonau a Fframwaith y DU ei gymeradwyo, sef y panel sy'n cymeradwyo holl weithgaredd datblygu'r NOS.

## Beth fydd yn digwydd nesaf?

Mae llawer iawn o waith ynghlwm wrth yr adolygiad hwn. Bydd Panel Safonau a Fframweithiau'r DU yn ein monitro ar ymgysylltiad ac ymgynghori â'r sector. Mae'r amlinelliad canlynol yn rhoi syniad o'r tasgau allweddol a'r amserlen a ragwelir.

| | |
|---|---|
| Mehefin/Gorffennaf 2024 | Recriwtio grŵp ysgrifennu i ymgymryd â'r gwaith o adolygu a drafftio'r safonau newydd. Bydd swydd-ddisgrifiadau a phrosesau recriwtio yn cael eu rhannu ar wefannau aelodau Consortiwm NOS Gwaith Chwarae'r DU. |
| Mehefin/Gorffennaf 2024 | Recriwtio Grwpiau Cyfeirio Arbenigol. Bydd Grwpiau Cyfeirio Arbenigol yn cynnwys cynrychiolwyr o: gwaith chwarae mynediad agored, gofal plant y tu allan i oriau ysgol, addysg bellach, addysg uwch, cyrff dyfarnu a sectorau cysylltiedig. Bydd y grwpiau hyn yn cefnogi ymgysylltu â'r sector ac yn llywio ymgynghoriad ehangach ar y safonau drafft a gynlluniwyd ar gyfer Haf 2025. |
| Gorffennaf/Awst 2024 | Datblygu 'map swyddogaethol'. Mae'r map swyddogaethol yn rhoi trosolwg o'r safonau arfaethedig ac unrhyw newidiadau i'r safonau presennol. Datblygir hyn cyn ysgrifennu'r safonau unigol. |
| Awst/Medi 2024 | Ymgynghoriad ar y map swyddogaethol gyda Grwpiau Cyfeirio Arbenigol. |
| Medi 2024 i Chwefror 2025 | Datblygu'r NOS yn cynnwys cyfarfodydd rheolaidd o'r grŵp ysgrifennu. |
| Chwefror/Mawrth 2025 | Ymgysylltu â Grwpiau Cyfeirio Arbenigol ar y safonau drafft. |
| Mawrth 2025 | Cynhadledd Genedlaethol Gwaith Chwarae: ymgysylltu a diweddaru. |
| Ebrill i Orffennaf 2025 | Ymgynghoriad ar draws y DU gyfan ar y safonau drafft. |
| Gorffennaf/Awst 2025 | Gwaith drafftio terfynol a chyflwyno'r safonau i'w cymeradwyo i Banel Safonau a Fframwaith y DU. |
| Medi/Hydref 2025 | Cyfieithu'r safonau terfynol y cytunwyd arnynt i'r Gymraeg.<br>Bydd y safonau terfynol yn cael eu cyhoeddi ar wefan Safonau'r DU: **www.ukstandards.org.uk/cy** |

PLAYBOARD NORTHERN IRELAND — P B — LEADING THE PLAY AGENDA

Play England — Freedom to play

PLAY SCOTLAND

Chwarae Cymru — Play Wales

THE PLAYWORK FOUNDATION — FOR PLAYWORK, PLAYWORKERS AND PLAY